**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

22 Tachwedd 2024

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

Annwyl Jenny,

**Cais am wybodaeth fel rhan o'r ymchwiliad i'r bwlch cyflogaeth anabledd**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Tachwedd yn gofyn am wybodaeth fel rhan o'r ymchwiliad i'r bwlch cyflogaeth anabledd. Gobeithio y bydd y wybodaeth isod yn gymorth.

**Gweithwyr anabl**

Mae data a gasglwyd trwy borth hunanwasanaeth Adnoddau Dynol (AD) (ar 20 Tachwedd 2024) yn dangos bod 40 o weithwyr y Comisiwn wedi datgan bod ganddynt anabledd. Byddwn yn parhau i annog yr holl staff anabl i gofnodi eu statws anabledd ar ein system AD, gan ein bod yn credu bod llawer o bobl ag anableddau 'cudd', megis salwch meddwl, anableddau dysgu a chyflyrau iechyd hirdymor eraill, a allai uniaethu gyda'r diffiniad o anabledd ar ein system, ddim yn cael eu hadlewyrchu yn y data hwn.

Mae gan y Comisiwn Strategaeth Llesiant 2022-25 ar waith sy'n amlinellu ei ymrwymiad i iechyd meddwl, lles corfforol, lles ariannol a lles cymdeithasol. Eleni, fe wnaethom ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn yr Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2023-24 ynghylch anabledd, iechyd meddwl a lles sy'n bodloni gofynion y Fframwaith Adrodd Gwirfoddol ar Anabledd, Iechyd Meddwl a Lles.

**Arweinydd Hyderus o ran Anabledd (Lefel Tri)**

Ar hyn o bryd mae gan Gomisiwn y Senedd statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd (lefel dau). Un o'r ymrwymiadau yn Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn 2022-26 yw sicrhau statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd. Mae'r Gwasanaeth AD ar hyn o bryd yn cwmpasu'r rhaglen waith hon.

**Arferion a Gweithdrefnau Recriwtio**

Yn unol â'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd, mae Comisiwn y Senedd yn gwarantu cyfweliadau i ymgeiswyr anabl sydd wedi bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer rôl.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein cynllun denu recriwtio i sicrhau ein bod yn rhoi sicrwydd i ddarpar ymgeiswyr anabl ynghylch y cymorth y gallent ei ddisgwyl gennym ni fel cyflogwr

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

cynhwysol drwy gydol y broses recriwtio ac yn ystod eu cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys addasiadau rhesymol ar bob cam o'r broses recriwtio a chefnogaeth barhaus unwaith y bydd gweithwyr newydd yn cael eu cyflogi gennym ni.

Mae'r Gwasanaeth AD yn adnewyddu'r tudalennau gwe recriwtio i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gyfer darpar ymgeiswyr yn flaenllaw. Gwahoddir ymgeiswyr i drafod unrhyw ofynion sydd ganddynt gyda'n Tîm Recriwtio.

**Data Bwlch Cyflog Anabledd**

Efallai y byddai hefyd yn ddefnyddiol i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am ein bwlch cyflog anabledd. Ar 31 Mawrth 2024 roedd canolrif bwlch cyflog anabledd y Comisiwn yn 0.0%, a oedd wedi aros yn gyson â chanolrif bwlch cyflog 0.0% y flwyddyn flaenorol (ar 31 Mawrth 2023). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chanolrif bwlch cyflog anabledd y DU yn 2023 o 12.7% (fel yr adroddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol - nid yw ffigurau 2024 wedi'u cyhoeddi eto).

Yn gywir,

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd**
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.